ant, ond ni'm cant. Canys cas fu
ganddynt wybodaeth, ac ofn yr

Arglwydd ni ddrwisasent. Ni chymmerent ddim o'm cyngor i, ond dirmygasant fy holl gerydd.

Magnificat anima. Luc. 1.

Fy enaid a fawrhaa yr Arglwydd: a'm hyspryd a lawenychodd yn Duw fy Iachawdwr.

Canys efe a edrychodd ar ostyngeiddrwydd ei wasanaethyddes.

Oblegid wele o hyn allan: yr holl genhedlaeth a'm galwant yn wynfydedig.

Canys yr hwn sydd alluog a wnaeth i mi fawredd: sanctaidd yw ei enw ef.

A'i drugaredd sydd ynoes oesoedd: ar y rhai a'i hofnant ef.

Efe a ddangosodd nerth a'i fraich efe a wasgarodd y rhai beilchion yn mfyrdod eu calonnau.

Efe

Efe a dynnodd i lawr y cedyrn oi heisteddfaeu : ac a dderchafodd y rhai iselradd.

Efe a lanwodd y rhai newynog a phethau da:ac a anfonodd ymaith y rhai goludog mewn cisian.

Efe a gynnorthwyodd ei was Israel, gan goffo ei drugaredd:(fel y dywedodd wrth ein tadau, Abraham a'i had) yn dragywydd,

Gogoniant i'r Tad, &c.

Megis ydd oedd yn y &c.

Neu yntau y Psalm hon.

Cantate Domino. Psalm 98.

CEnwch i'r Arglwydd ganiad newydd, canys efe a wnaeth bethau rhyfedd: a'i ddeheulaw, ac a'i fraich sanctaidd y parodd iddo ei hun Iachawdwriaeth.

Ys

[illegible] yr Arglwydd ei Ia-
chawdwriaeth: a ddatguddiodd ei
gyfiawnder yngolwg y cenhod-
loedd.

Cofiodd ei drugaredd a'i wirio-
nedd i dŷ Israel: a [illegible] derfynau y
ddaiar a welsant [illegible] iachawdwria-
eth ein Duw ni.

Cenwch yn llafar i'r Arglwydd
yr holl ddaiar: llefwch ac ymlaw-
enhewch, a chenwch.

Cenwch i'r Arglwydd gyda'r
delyn: sef gyda'r delyn a llef can
moliaeth.

Cenwch yn llafar o flaen yr Ar-
glwydd y Brenhin: ar yr udgyrn,
a sain trwmpet.

Rhued y môr ac sydd ynddo: y
byd a'r rhai sydd yn trigo o'i fewn.

Curent y llifeiriant eu dwylo: a
chydganent y mynyddoedd a flaen

yr Arglwydd, canys efe a ddaeth
i farnu y ddaiar.
Efe a farn y byd mewn cyfiawn
der: ar bobloedd mewn uniondeb.
Gogoniant i'r Tad, &c.
Megis ydd oedd yn y &c.

Yr ail llith a dynnwyd allan or 12.
bennod at y Rhufeiniaid.

YR wyf yn attolwg i chwi, fro-
dyr, er trugareddau Duw, ro-
ddi o honoch eich cyrph yn aberth
byw, sanctaidd, cymmeradwy gan
Dduw; yr hyn yw eich rhesym-
mol wasanaeth chwi. Ac na chy-
dymffurfiwch a'r byd hwn, eithr
ymnewidiwch trwy adnewyddi-
ad eich meddwl, fel y profoch beth
yw daionus, a chymmeradwy, a
pherffaith ewyllys Duw. Canys
yr wyf yn dywedyd, trwy y gras

a roddwyd i mi, wrth bob vn sydd yn eich plith, na byddo i neb uchel-synied yn amgen nag y dylid synied, eithr synied i sobrwydd, fel y rhannodd Duw i bob vn fesur ffydd. Canys megis y mae gennym aelodau lawer mewn vn corph, ac nad oes gan yr holl aelodau yr vn swydd; felly ninnau, a ni yn llawer, ydym vn corph yng-hrist, a phob vn ein aelodau iw gilydd.

Nunc dimittis Luke 2. 29.

YR awr hon Arglwydd y gollyngi dy was mewn tangnhefydd yn ol dy air.

Canys fy llygaid a welsant dy Iachawdwriaeth.

Yr hon a baratoaist ger bron wyneb yr holl bobl.

I fod yn oleuni i oleuo y Cenhedloedd.

bendigedig, ac yn ogoniant i'th bobl Israel.
Gogoniant i'r Tad, &c.
Megis ydd yn y &c.

Neu 'r Psalm 67.

Deus misereatur nostri.

DUw a drugarhao wrthym, ac a'n bendithio, a thywyn ynnedd llewyrch ei wyneb arnom, a thrugarhaed wrthym.
Fel yr adwaener dy ffyrdd ar y ddaiar, a'th iachawdwriaeth ym mhlith yr holl genhedloedd.
Moliannet y bobl di O Dduw moliannet yr holl bobl dydi
Llawenhaed y cenhedloedd, a byddant hyfrydi: canys tydi a ferni y bobl yn uniawn, ac a lywodraethi y cenhedloedd ar y ddaiar.

¶ Prydnhawnol weddi.

Molianned y bobl di, o Dduw: molianned yr holl bobl dydi.

Yna'r ddaiar y rydd ei ffrwyth a Duw, sef ein Duw ni, a'n bendithia.

Duw a'n bendithia; a holl derfynau y ddaiar a'i hofnant ef.

Gogodiant i'r Tad, &c.

Megis ydd oedd yn y &c.

Y Collect o'r dydd.

Yna dyweder y Collect am Heddwch.

DUw oddiwrth ba un y daw pob eiddunned sanctaidd, pob cyngor da, a phob gweithred gyfiawn, dyro i'th wasanaeth-ddynion y rhyw dangnhefydd ar na ddichon y byd ei roddi, modd y gallo

ein

Prydnhawnol weddi.

ein calonnau ymroi i ufuddhau i'th orchymynion, a thrwy dy amddiffyniad i ni rhag ofn ein gelynion allu o honom dreulio ein hamser mewn heddwch a thangnefedd, drwy haeddedigaethu Iesu Grist ein Iachawdwr, Amen.

Gweddi tros y Brenhin.

O Drugarogcaf Dduw yr hwyn yw i gyd dy lywission o wir ddyled a'th blant drwy ras, yn ufudd deisyfu arnat gadw dy was Charls ein Brenhin ni, llywydd O Arglwydd deionus, bara hwn rhinwedd ynddo ef, fel y bo i'r deyrnas hon lawner o lonyddoedd llwynhau aml ffrwyth dy rad a'th fendith di arno ef, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Dros

Y vii Psalm.

Dros vn a fo claf.

ERglyw ni holl-gyfoethog a
thrugarocaf Dduw ac Ia-
chawdwr, estyn dy arferedig ddai-
oni i'th wasanaethwr yma sydd o-
fidus gan ddolur: ymwel ag ef,
Arglwydd, megis yr ymwelaist a
mam gwraig Petr, ac a gwas y
capten: felly ymwel a'r claf hwn,
dyro iddo ei gynefin iechyd, os
dy ewyllys di yw hynny, ac onid a
dyro iddo ras i gymmeryd felly
dy ymwelliad, fel y bo iddo yn ol
diweddu y fuchedd boenedig hon,
allu trigo gyda thi yn y fuchedd
dragywyddol.

Y trydydd Colect am ymwared yn erbyn pob peryglon.

GOleua ein tywyllwch, ni a
attolwg i ti O Arglwydd, a
thrwy

Y viii Psalm.

thrwy dy [illegible] drugaredd amddi-
ffyn ni rhag pob perygl ac enby-
drwydd y nos hon, er serch ar dy un
Mab ein Iachawdwr Iesu Grist
Amen.

Caniatha i ni Arglwydd, ni a
attolygwn i ti, yr yspryd i feddwl
ac i wneuthur bethe cyfiawn be-
than ac a fo cyfiawn; fel y bwym,
i ni y rhai ni allwn fod hebot ti
allu trwot ti fyw yn ol dy ewyllys
trwy Iesu Grist ein Arglwydd
Amen.

TAngnefeddus Dduw yr hwn
sydd uch law pob deall a gatwo
eich calonnau a'ch meddyliau
yngwybodaeth a chariad Duw, a'i
Fab Iesu Grist ein Harglwydd.
A bendith Duw holl[illegible] y
Tad, y Mab, a'r Yspryd glan, a
fytho

fyddo i'ch plith, ac a drigo gyd-
chwi yn wastad. Amen.

Y ma y terfy na Boreol a Phryd-
nhawnol weddi.

Saith Psalm Edifeirwch.

Domine ne in furore, Psal. 6.

ARglwydd na cherydda fi yn
dy lidiawgrwydd, ac na cho-
[illegible] yn dy lid.

Trugarha wrthyf Arglwydd,
canys llesc ydwyf: iachaa fi O
Arglwydd, canys fy escyrn a gy-
[illegible].

A'm henaid a ddychrynwyd yn
[illegible]: [illegible] Arglwydd, pa
[illegible]

[illegible] Arglwydd, gwared fy
[illegible] dru-
[illegible]

Canys yn angau nid oes coff a
m danat : yn y bedd pwy a'th fe-
anna.

Diffygiais gan fy ochain ; bob
s yr ydwyf yn gwneuthur fy
wely yn fnoddfa:yr ydwyf 'n ygw-
chu fy ngorweddfa am daigrau.

Treuliodd fy llygad gan ddig-
: hene idiodd o herwydd fy holl
ynion.

Ciliwch oddiwrthyf holl wei-
thredwyr anwiredd canys yr Ar-
glwydd a glywodd lef fy wylofain

Clybu Arglwydd fy neisyfiad :
yr Arglwydd a dderbyn fy ngwe-
ddi.

Gwradwydder, a thralloder yn
ddirfawr fy holl elynion : dychwe-
ler, a chywilyddier hwynt yn
disymmwth.

Beati

Prydnhawnol weddi.

Beatiquorum. Psalm 32.

GWyn ei fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd: ac y cuddiwyd ei bechod.

Gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd: ac ni bo dichell yn ei yspryd.

Tra y tewais, heneiddiodd fy esgyrn: gan fy rhuad ar hyd y dydd.

Canys trymhaodd dy law arnaf ddydd a nos: fy irder a drowyd yn sychder haf.

Addefais fy mechod wrthyt, a'm hanwiredd ni chuddiais: dywedais, cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd, a thi a faddeuaist anwiredd fy mhechod.

Am hyn y gweddia pob duwiol

arnat

rnat ti yn yr amser i'th gaffir: yn
dian yn llifeiriant dyfroedd maw
rion, ni chant nessau atto ef.

Ti ydwyt loches i mi; cedwi fy
rhag ing: amgylchyni fi a chaniadau
ymwared.

Cyfarwyddaf di a dysgaf di yn y
ffordd yr elych: a'm llygad arnat
i'th gynghoraf.

Na fyddwch fel march, neu ful,
heb ddeall: yr hwn y mae rhaid at-
tal ei en a genfa ac a ffrwyn, rhag
ei ddyfnessau attat.

Gofidiau lawer fydd i'r annu-
wiol: ond y neb a ymddiriedo yn yr
Arglwydd, trugaredd a'i cylchyna
ef.

Y rhai cyfiawn, byddwch law-
en a hyfryd yn yr Arglwydd: a'r
rhai uniawn o galon oll cenwch yn
llafar.

Do

Y vii Psalm.

Domine [illegible] . Psal. 38.

ARglwydd, na cherydda vi yn dy lid: ac na chospa vi yn dy ddigllonedd.

Canys y mae dy saethau [illegible] ynof: a'th law [illegible] arnaf.

Nid oes Iechyd yn fy nghnawd oherwydd dy ddigllonedd: [illegible] oes heddwch i'm hesgyrn, gan ddrygioni fy mhechod.

Canys fy nghamweddau a aethant dros fy mhen: megis baich trwm y maent yn rhy drwm i mi.

Fy nghleisiau a [illegible]sant, ac a lygrasant gan fy ynfydrwydd.

Crymnhwyd a darostyngwyd fi yn ddirfawr: beunydd yr ydwyf yn myned yn alarus.

Canys fy lwynau a lanwyd o [illegible]glwyf: ac nid oes iechyd yn fy nghnawd.

Gwan=

Y vii Psalm.

Gwanhawd, a dryllswyd fi yn
[illegible] vawr: rhuais gan aflonydd-
ch fy nghalon.
O th flaen di Arglwydd, y mae
holl ddymuniad: ac ni chuddi-
wyd fy ochenaid oddiwrthyt.
Fy nghalon sydd yn llammu fy
nerth a'm gadawodd: a llewyrch
[illegible] nid ydyw [illegible] gennif.
Fy nghyfreathion a'm cyfeillion
safent oddiar gyfer fy mhla:
a'm cymmydogion a safent o hirbell
Y rhai hefyd a geisient fy eini-
oes a osodasant faglau: a'r rhai
a geisient fy niweid a draethent
anwireddau, a dychymygent
dwichellion ar hyd y dydd.
A minneu fal byddar ni chlywn:
ithr oeddwn fal mudan heb ago-
ryd ei enau.
Felly roeddwn fal gwr ni chly-
wai:

wai: ac heb argyoeddson yn ei enau.

O herwydd i'm obeithio ynot Arglwydd: ti Arglwydd fy Nuw a wrandewi.

Canys dywedais, gwrando fi, rhag llawenychu o honynt i'm herbyn: pan lithrei fy nhroed ymfawrygent i'm herbyn.

Canys parod wyf gloffi: a'm dolur sydd ger fy mron yn wastad.

Pan y my negaf fy anwiredd: ac y pryderaf o herwydd fy mhechod.

Ac y mae fy ngelynion yn fyw, ac yn gedyrn: amlhawyd hefyd y rhai a'm casant ar gam.

A'r rhai a dalant ddrwg dros da a'm gwrthwynebant: am fy mod yn dilyn daioni.

Na

Y vii Psalm.

Na ad fi, O Arglwydd: fy Nuw nac ymbellha oddi wrthyf.

Brysia i'm cymmorth: O Arglwydd fy iachawdwriaeth.

Miserere mei. Psal.

TRugarhaa wrthyf O Dduw yn ol dy drugarogrwydd: yn ol lliaws dy dosturiaethau, dilea fy anwireddau.

Golch fi yn llwyr oddiwrth fy anwiredd: a glanha fi oddiwrth fy mhechod,

Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau a'm pechod sydd yn wastad ger fy mron,

Yn dy erbyn di, ydd i dy hunan, y pechais, ac y gwneuthum y drwc hyn yn dy olwc: fal i'th gyfiawnhaer pan leferych, ac byddit bur pan farnech.

Mele

Wele mewn anwiredd i'm llu-
niwyd: ac mewn pechod y beichi-
ogodd vy mam arnaf.

Wele, ceraisti wirionedd oddi
mewn: a pheri i mi wybod doeth-
ineb yn ddirgel.

Glanhâ fi ag Yssop, ac mi a lan-
heir: golch fi, a byddaf wynnach
na'r eira.

Par i mi glywed gorfoledd, a
llawenydd: fel y llawenhay cho yr
escyrn a ddrylliaist.

Cudd dy wyneb oddiwrth fy
mhechodau: a dilea fy holl anwi-
reddau.

Crea galon lan ynof o Dduw:
ac adnewydda yspryd uniawn o'm
mewn.

Na vwrw fi ymaith oddi ger dy
fron: ac na chymmer dy Yspryd
sanctaidd oddiwrthyf.

Dyro

Y vii Psalm.

Dyro drachefn i mi orfoledd di
iachawdwriaeth: ac a'th hael ys-
pryd cynnal fi.

Yna y dysgaf dy ffyrdd i rhai an-
wir: a pechadwriaid a drois attat.

Gwared fi oddiwrth waed: O
Dduw, Duw fy iachawdwriaeth:
a'm tafod a gan yn llafar am dy
gyfiawnder.

Arglwydd agor fy ngwefusau:
a'm genau a fynega dy foliant.

Canys ni chwennychi aberth,
pe amgen mi a'i rhoddwn: poeth
offrwm ni fynni.

Aberthau Duw ydint yspryd
drylliedig: calon ddrylliog gystu-
uddiedig, O Dduw ni ddirmygi.

Gwna ddaioni, yn dy ewyllys-
garwch, i Sion: adeilada furiau
Jerusalem.

Yna y byddi fodlon i ebyrth cy-
fiawnder,

lawnder, i boeth offrwm ac aberth llosg: yna'r offrymmant fustych ar dy allor.

Domine exaudi. Psal.102.

ARglwydd clyw fyngweddi: a deled fy llef attat.

Na chudd dy wyneb oddiwrthyf, yn nydd fy nghyfyngder gostwng dy glust attaf: yn y dydd y galwyf brysia, gwrando fi.

Canys fy nyddiau a ddarfuant fel mwg, a'm hesgyrn a boethasant fel aelwyd.

Fy nghalon a darawyd, ac a wywodd fel llysieuyn: fel yr anghofiais fwytta fy mara.

Gan lais fy nhuchan: y glynodd fy esgyrn wrth fy nghnawd.

Tebyg wyf i belican yr anialwch:

[an]wch: ydwyf fel dylluan y diffai-
thwch.

Gwiliais, ac ydwyf fel aderyn y
to, vnig ar ben y ty.

Fy ngelynion a'm gwradwy-
ddant beunydd: y rhai a ynfydant
wrthyf a dyngasant yn fy erbyn.

Canys bwytteais lludw fel ba-
ra: a chymmysgais fy niod a wy-
lofain.

O herwydd dy lid di a'th ddigo-
faint: canys codaist fi i fynu, a
thaflaist fi i lawr.

Fy nyddiau sydd fel cysgod yn
cilio: a minnau fel glaswellt yn a
wywnais.

Eithr ti Arglwydd a barhei yn
dragywydd: a'th goffadwriaeth
hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

Ti a gyfodi, ac a drugarhei wrth
Sion: canys yr amser i druga-
rhau

rhau wrthi, felyr amser nodedig a ddaeth.

Oblegid y mae dy weission yn conio ei meini: ag y tosturio wrth hi llwch hi.

Felly y cenhedloedd a ofnant Enw'r Arglwydd: a holl frenhinoedd y ddaiar dy ogoniant.

Pan adeilada yr Arglwydd Sion: y gwelir ef yn ei ogoniant.

Efe a edrych ar weddi y gwael: ac ni ddiystyrodd ei ddymuniad.

Hyn a ysgrifennir i'r genhedlaeth a ddel: a'r bobl a greir a foliannant yr Arglwydd.

Canys efe a edrychodd o'r uchelder ei gyssegr, yr Arglwydd a edrychodd o'r nefoedd ar y ddaiar.

I wrando uchenaid y carcharorion: ac i ryddhau plant angau.

I fynegi Enw yr Arglwydd yn Sion:

on: a'i foliant yn Jerusalem.

Pan gasgler y bobl ynghyd: a'r teyrnasoed i wasanaethu'r Arglwydd.

Gostyngodd efe fy nerth a'r y ffordd: byrhaodd fy nyddiau.

Dywedais, fy Nuw na chymmer fi ymaith ynghanol fy nyddiau: dy flynyddoedd di sydd yn oes oesoedd.

Yn y dechreuad sefydlaist y ddaiar: a'r nefoedd ydynt waith dy ddwylo.

Hwy a ddarfyddant, a thi a barhei, ie hwynt oll a heneiddiant fel dilledyn: fel gwisg y newidi hwynt a hwy a newidir.

Eithr ti'r un ydwyt: a'th flynyddoedd ni ddarfyddant.

Plant dy weision a barhaant ai had a sicrheir ger dy fron di.

De profundis clamavi. Psal. 130.

OR dyfnder y llefais arnat, O Arglwydd.

Arglwydd clyw fy llefain: ystyried dy glustiau wrth lef fy ngweddiau.

Os creffi ar anwireddau Arglwydd: O Arglwydd, pwy a saif.

Onid y mae gyda thi faddeuant fel i'th ofner.

Disgwiliaf am yr Arglwydd disgwil fy enaid: ac yn ei air ef y gobeithiaf.

Fy enaid sydd yn disgwil am yr Arglwydd, yn fwy nag y mae yr gwilwyr am y bore: yn fwy nag y mae yr gwilwyr am y bore.

Disgwilied Israel am yr Arglwydd:

glwydd: o'herwydd y mae truga-
redd gyda'r Arglwydd, ac aml ym-
wared gydag ef.
Ac efe a wared Israel, oddiwrth
ei holl anwireddau.

Domine exaudi. Psal. 143.

ARglwydd clyw fy ngweddi, a
gwrando ar fy neisyfiadau:
caglyw fi yn dy wirionedd, ac yn
dy gyfiawnder.
Ac na ddos i farn a'th was: o
herwydd ni chyfiawnheir neb
byw yn dy olwg di.
Canys y gelyn a erlidiodd fy e-
naid, curodd fy enaid i lawr:
gwnaith i mi drigo mewn tywyl-
wch, fel y rhai a fu feirw er ys
talm.
Yna y pallodd fy yspryd o'm

meiwon: ac y synnodd fy nghalon ynof.

Cofias y dyddiau gynt myfyriais ar dy holl waith: ac yngweithredoedd dy ddwylo y myfyriaf.

Lledais fy nwylaw attat: fy enaid fel tir sychedig sydd yn hiraethu am danat.

Oh Arglwydd gwrando fi yn ebrwydd: pallodd fy yspryd, na chudd dy wyneb oddiwrthyf, rhag fy mod yn gyffelyb i'r rhai a ddisgynnant i'r pwll.

Par i mi glywed dy drugarowgrwydd y bore, o herwydd ynot ti y gobeithiaf: par i mi wybod y ffordd y rhodiwyf, oblegid attat ti y dercha'sy enaid.

Gwared fi oddiwrth fy ngelynion, O Arglwydd: gyda thi yr ymguddiais.

Y vii Psalm.

Dysg i mi wneuthur dy ewyllys dy, canys ti yw fy Nuw: tywysed dy yspryd daionus fi i dir union-deb.

Bywha fi O Arglwydd, er mwyn dy Enw, dwg fy enaid allan o ing, er mwyn dy gyfiawnder.

Ac er dy drugaredd, diwreiddia fy ngelynion, a difetha holl gystuddwyr fy enaid: oblegid dy was di ydwyf fi.

Gogoniant i'r Tad, &c.
Megis ydd oedd yn y &c.

Yr Anthem.

NA choffa Arglwydd, ein anwiredd, ond rhagflaened dy drugaredd ni ar frys, canys truain iawn ydym: cynnorthwya ni o Dduw ein Iachawdwr, ac er gogoniant dy Enw gwared ni: bydd drugarog wrthym, ac er mwyn dy Enw maddeu i ni ein pechodau. Na ad i'r annuwiol ddywedyd, Pa le y mae eu Duw hwynt.

Dy bobl dy ydym ni, a defaid dy borfa; i ti y diolchwn yn dragywydd: o oes i oes y mynegwn dy foliant a'th glodforedd. I ti y bythor moliant ar gogoniant byth ac yn dragywydd. Amen.

Ymaterfyna y vii. Psalm.

Col-



Collectau a dynnwydd allan o'r Llyfr gweddi gyffredin, i'w dywedyd bob dydd yn yr wythnos. O flaen y colectau eraill sy yn niwedd Boreol a Phrydnhawnol weddi.

Ar Ddie Sul.

HOll-alluog a thrugarog Dduw, o rodd pwy bai yn dyfod pob peth, bod ith ffyddlon bobl dy wasanaethu yn gywir ac yn fawoledig: Caniadha, ni erfyniwn i ti, allu o honom redeg at dy nefol addewidion, fel na phallo gennym yn y diwedd eu mwynhau: trwy Jesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Collectau.

Ar Ddie Llun.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn yn wastad wyt barottach i wrandaw ni a nymi i weddio, ac wyt arferol o roddi mwy nag a archom, neu a ryglyddom: tywallt arnom amlder dy drugaredd, gan faddeu i ni y rhai pethau ac y mae ein cydwybod yn eu hofni, a rhoddi i ni y pethau ni feiddia ein gweddi eu herchi: trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Ar Ddie Mawrth.

DUw, yr hwn a arlwyaeist i'r rhai a'th garant gyfryw bethau daionus ac y sydd uch ben pob deall

Collectau.

...ll dyn, tywallt i'n calonnau gr...
...w serch arnat, fel y bô ni ...
...n dy garu ym mhob rhyw beth...
...u mwynhau dy addewidion, y
...hai sy fwy rhagorol na dim a fe...
...oi ni ei ddeisyf: trwy Iesu
...ist ein Harglwydd. Amen.

Ar Ddie Mercher.

DUw, yr hwn wyt wir y nerth
i bawb oll ac y sy yn ymddi-
...ed ynot, yn drugarog derbyn ein
...weddiau: a chan na ddichon
...wendid ein marwol anian wneu-
thur dim da hebot ti, Caniatha
i ni gymmorth dy nefol rad, fel y
...o i ni gan gadw dy orchymmyn-
ion, ryngu bodd i ti ar ewyllys a
...weithred: trwy Iesu Grist ein
Arglwydd, Amen.

Ar Ddie Iou.

Hollgyfoethog Dduw, yr hwn wyt yn gwneuthur meddyliau yr holl ffyddloniaid i fod o un ewyllys: Caniadha i'th bobl, fod yddynt garu yr hyn yr wyt yn ei orchymmyn, a deisyfu yr hyn yr wyt yn ei addo, fel ym mhlith amrafael ddamweiniau'r byd, allo'n calonnau gwbl aros yn y lle y mae gwir lawenydd i'w gael, trwy Grist ein Harglwydd Amen.

Ar Ddie Gwener.

O Arglwydd, yr hwn wyt yn dysgu i ni na thâl ddim ein holl weithredoedd heb gariad per-

ffaith

Collectau.

[..]ith: anfon dy Yspryd glan, a
thywallt yn ein calonnau ragorol
ddawn cariad perffaith, gwir
rwymyn tangnefudd a holl rinwe
ddau da, heb yr hwn pwy bynnag
sydd yn byw a gyfrifir yn farw
ger dy fron di; Caniatha hyn er
mwyn dy un Mab Iesu Grist. A-
men.

Ar Ddie Sadwrn.

Dycha Arglwydd attolwg i ti
dy gadernid, a thyred in plith,
ac am y rhwystr a'r luddies y sydd
arnom, y rhan an wiredd ein pecho-
dau, bydded ith ddaionus rad ti ein
gwared ni yn rhwydd, trwy ddi-
gonedd dy Fab ein Harglwydd;
a'r hwn gyda thi a'r yspryd glan y
bydd anrhydedd a gogoniant yn
oes oesoedd. Amen.

Ang-

Ar Ddie Iou.

Hollgyfoethog Dduw, yr hwn wyt yn gwneuthur meddyliau yr holl ffyddloniaid i fod o un ewyllys: Caniatha i'th bobl, fod yn caru yr hyn yr wyt yn ei orchymyn, a deisyfu yr hyn yr wyt yn ei addo, fel ym mhlith [illegible] amryw weithiau 'r byd, [illegible] gwbl arhos yn [illegible] gwir lawenydd iw gael [illegible] trwy Grist ein Harglwydd Amen.

Ar Ddie Gwener.

O Arglwydd, yr hwn wyt yn dysgu i ni [illegible] thalu dim ein holl weithredoedd heb gariad per-

ffaith

ffaith: anfon dy Yspryd glan, a thywallt yn ein calonnau ragorol ddawn cariad perffaith, gwir rwymyn tangnefedd a holl rinweddau da, heb yr hwn pwy bynnag sydd yn byw a gyfrifir yn farw ger dy fron di; Caniadha hyn er mwyn dy vn Mab Iesu Grist. Amen.

Ar Ddie Sadwrn.

Dyrcha Arglwydd attolwg i ti dy gadernid, a thyred in plith, ac am y chwestr a'r lluddies y sydd arnom, y tan anwiredd ein pechodau, bydded ith ddaionus rad ti ein gwared ni yn ebrwydd, trwy ddiwygiad dy Fab ein Harglwydd; i'r hwn gyda thi a'r yspryd glan y bydd anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

Angwhaneg o'r un Collectau.

HOll-alluog a thragwyddol Dduw, edrych yn drugarog ar ein gwendid: ac yn ein holl beryglon an anghenion, estyn dy ddeheulaw i'n cymmorth ac i'n amddiffyn, trwy Grist ein Harglwydd. Amen.

Vnar ail.

DUw, yr hwn a wyddost ein bod ni wedi ein gosod imewn cymmaint a chymniser o beryglon ac na's gallom o herwydd ein gwendid dynol, sefyll bob amser yn uniawn, Caniadha i ni iechyd enaid a chorph, fel y bo am yr holl bethau ydd ym ni yn ei dioddef

Collectau.

ddrf a'n bechod, allu o honynt ddrwy
dy borth di e'i gorfod a'i gorchfy=
gu, trwy Iesu Grist ein Harl=
lwydd. Amen.

Vn arall.

O Arglwydd Dduw, yr hwn
a weli nad ydym ni yn ym=
ddiried mewn un weithred a wne=
lom: Caniatta yn drugarog fod
i ni drwy dy nerth, gael ein ham=
ddiffyn rhag pob gwrthwyneb,
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.

Vn arall.

HOll-alluog Dduw, yr hwn
ni chasei ddim ar a wnae
thost, ac a faddeui bechodau
pawb y sy edifeiriol; Crea a
gwnan

gwna ynom newydd a drylliedig galon; fel y bo i ni gan ddyledus ddoluriaw am ein pechodau, a chyfaddef ein truēni, allu caffael gennyt, Dduw yr holl drugaredd, gwbl faddeu int a gollyngdod; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Vn arall.

NI a attolygwn i ti, Holl alluog Dduw, edrych o honot ar ddeisyfiadau dy ufudd weision, ac ystyn ddeheulaw dy fawredd i fod yn ymwared i ni yn erbyn ein gelynion; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Vn arall.

ARglwydd par di fod arnom wastadol ofn a chariad dy sanctaidd Enw, canys byth ni phelli gymmorth y sawl a feithrin-iwch yn nwyfder dy gariad: Caniadha hyn er cariad ar dy un Mab Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Vn arall.

ARglwydd ni a attolygwn i ti yn drugarog ein gwrando, ac megis y rhoddaist i ni feddylfryd calon i weddio, caniadha drwy dy fawr nerth i ni gael ein hamddiffyn; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Gwe-

Gwedi dra duwiol, gymmwys i'w harfer gan bob Christion.

O Hael ddaionus Iesu, O Iesu deg, O Iesu Fab y Fair forwyn, llawn, trugaredd a gwirionedd: o deg Iesu, yn ol dy fawr drugaredd, trugarhaa wrthyf: O ddaionus Iesu, yr wyf yn attolwg i ti er mwyn dy werthfawr waed wy buost fodlen i'w goll i ar allor y groes er ein mwin ni bechadurfaid truain, fod yn wiw gennyt dynnu y maith yn llwyr fy holl anwireddaui, ac nam dirmygich, a minnau fel hyn yn vfudd ddeisyfu arnat, ac yn galw ar dy sanct eiddiaf Enw Iesu. Yr Enw yma Iesu sydd Enw pereiddiwydd. Yr Enw yma Iesu sy

fy Enw Iachawdwriaeth. Oble-
gid beth yw Iesu ond Iachaw-
dwr? O ddaionus Iesu, tydi a'm
creaisti, ac a'm prynaist i a'th
werthfawr waed. Na ad i mi fy-
ned yn golledig, a tithau we-
di fy ngwneuthur i o ddiddim
ddeunydd: O ddaionus Iesu, na
ad i'm hanwiredd fy nistrywio, a
thithau wedi fy ngwneuthur i o'th
oll-alluog ddaioni. O ddaionus
Iesu, cydnebydd dy ran dy hun
a honno hi, a sych ymaith yn llwyr
bob peth ac sy yn fy nhynnu i
oddiwrthyt ti. O ddaionus Iesu
trugarha wrthyf tra fo amser
trugaredd, ac na'm gwradwyddu
yn amser dy farn ofnadwy.
O ddaionus IESU, os
darfu i mi bechadur truan, trwy
fy ngorthrwm bechodau, wrthdy
gy-

gyfiawnder di haeddu tragywy-
ddawl boenau, etto yr wyf yn
appelio oddiwrth dy gyfiawnder
di, ac yn rhoi cwbl o'm hymddirie-
ed yn dy anfeidrol drugaredd di.
Nid oes gennyf ddim ammau nas
cymmeri di drugaredd arnaf me-
gis tad cariadus ac Arglwydd tru-
garog. O ddaionus Iesu, pa fudd
sydd yn fy ngwaed i, gan fod
yn rhaid i mi ddisgyn i lygrediga-
eth? diau na bydd i'r rhai meirw
dy foliannu di, na'r holl rai sydd yn
disgyn i uffern. O drugarog tad
Iesu, trugarha wrthyf. O garuei-
ddiaf Iesu, gwared fi. O fwynei-
ddiaf Iesu, dwg fi bechadur tru-
an at rifedi y rhai a fydd cadwe-
dig. O Iesu, Iachawdwriaeth y
rhai a gredant ynot ti, trugarha
wrthyf. O ddaionus Iesu, ma-
ddeuant

docvant fy holl bechodau. O Iesu Fab y lan wyryf Fair, cynnyscaeddes fi a'th ras, ac a doethineb, ac a chariad perffaith, ac a diweirdeb, ac a gostyngeiddrwydd, io ac a dianwadal ddioddefgarwch yn fy holl wrthwynebeb; fel y bo i mi dy garu di yn berffaith, a chael yn ot ti fy gogoneddu, a bod cwbl om difyrwch ynot ti, byth heb ddiwedd. Amen.

Gweddi Manasses brenhin Iuda.

O Arglwydd, Holl-alluog Dduw ein tadau Abraham, Isaac, ac Iacob; a'i cyfiawn hiliogaeth hwynt: yr hwn a wnaethost nefoedd a daiar, a'i gwrychdir oll: yr hwn a rwymaist y mor

a

a wnair dy orchymynnyn yr; hwn a
gauaist y dyfnder, ac a'i seliaist
a'th Enw ofnadwy a gogoneddus;
yr hwn y mae pob peth yn ei of-
ni, ac yn crynu rhac wyneb dy
nerth. Oblegid ni ellir aros maw-
redd dy ogoniant, na dioddef dig-
ter dy fygwth yn erbyn pechadu-
riaid: Eithr trugaredd dy addewyd
ti sydd anfeidrol, ac anchwili-
adwy; oblegid tydi sydd Arglwydd
goruchaf, daionus, ymarhous,
mawr ei drugaredd hefyd, ac edi-
feiriol am ddrwg dyn. Tydi O
Arglwydd yn ol amlder dy ddai-
oni, a addewaist edifeirwch a ma-
ddeuant i'r rhai a bechasant i'th
erbyn, ac yn amlder dy dosturia-
eth a ordeiniest edifeirwch i
bechaduriaid er iachawdwriaeth.
Am hynny tydi O Arglwydd
Dduw

Gweddiau.

Dduw y rhai cyfiawn, ni osodaist
edifeirwch i'r rhai cyfiawn, i A-
braham, Isaac, ac Iacob, y rhai ni
phechasant i'th erbyn, ond ti a o-
sodaist edifeirwch er fy mwyn i
bechadur. Mi a bechais yn fwy
na rhifedi tywod y mor: fy an
wireddau a amlhasant. O Argl-
wydd, fy anwireddau a amlha-
sant, ac nid wyf deilwng i e-
drych ac i weled uchder y ne-
foedd, o herwydd amlder fy anwi-
reddau. Mi a grymmais i lawr
gan rwymau haiarn, fel na allwyf
godi fy mhen; ni allaf chwaith
gymeryd fy anadl, am gyffroi o
honof dy lid di, a gwneuthur yr
hyn sydd ddrwg yn dy olwg,
dy ewyllys nis gwneuthum, a'th
orchymynion nis cedwais. Goso-
dais i fynu ffieiddra, ac amlhe-
ais

ais gamweddau. Ac yr awrhon yr ydwyf yn plygu glin fy nghalon, gan ddymuno daioni gennyt. Pechais o Arglwydd, pechais, ac yr ydwyf yn cydnabod fy anwireddau. Am hynny yr ydwyf yn deisyf gan attolwg iti, maddeu i mi o Arglwydd, maddeu i mi, ac na ddifetha fi ynghyd a'm hanwireddau, ac na chadda ddrwg i mi, gan ddigio byth wrthyf; ac na ddamnia fi i'r endeed y ddaiar: canys tydi sydd Dduw Duw meddaf i'r edifeiriol; ac ynofi y dangosi dy holl ddaioni, oblegid ti a'm hachubyt, yr hwn ydwyf annheilwng, yn ol dy fawr drugaredd. Am hynny fyth folianaf di bob amser, holl ddyddiau fy einioes: oblegid y mae holl nerthoedd y nefoedd yn dy foliannu di, ac i ti

y

y mae'r gogoniant yn oes oesoedd. Amen.

Y madrodd Job yn ei ddygn wrthwyneb, o'i golled am ei holl dda.

NOeth y daethym o groth fy mam, a noeth y dychwelaf: yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith: bendigedig fyddo Enw'r Arglwydd. Amen.

Gweddi cyn gwrando pregeth.

O Drugarocaf Dad, ac Arglwydd daionus, yr hwn o'th fawr drugaredd a roddaist dy fendigedig air i fod yn ganwyll i'n

traed

traed ni ac yn oleuni i'n llwybrau egor ein calonnau ni drwy weithrediad dy lan Yspryd, fel y gallom ddeall dy wir ionedd di: A chaniadhat i ni am y pethau ydom yn eu deall yn ol dy ewyllys di, allu o honom eu dilyn yn ein gweithredoedd a'n bucheddau, er gogoniant i'th Enw di, a chadwedigaeth ein heneidiau ein hunain, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Am ymwared oddiwrth ein gelynion. Esa.37.16.

O Arglwydd lluoedd, Duw Israel, yr hwn wyt yn trigo rhwng y Cerubaid ac wyt Dduw i holl deyrnasoedd y ddaiar, yr hwn a wnaethost nefoedd a daear: Gogwydda

gwydda Arglwydd dy glust a gwrando, egor dy lygaid Arglwydd ac edrych: Achub ni Arglwydd oddiwrth ddwylo ein gelynion fel y gwyppo holl deyrnasoedd y byd, mai ti yn unic sydd Arglwydd. Amen.

Gweddi am ddigonolrwydd bydol. Dih. 30. 7.

Dau beth yr wyf yn eu gofyn na omedd hwynt i mi cyn fy marw; Tynn ym mhell oddiwrthyf wagedd a chelwydd, na ddyro i mi na thlodi, na chyfoeth; portha fi a'm digon o fara, rhag i mi wrth ymlenwi dy wadu di, a dywedyd, pwy yw'r Arglwydd? neu rhag i mi o fyrthiaf mewn tlodi, fyned i ladratta, a chymmeryd Enw fy Nuw yn ofer. Gwe-

Gweddi wrth godi'r bore.

O Arglwydd Iesu Grist, tydi yw gwyr oleuni 'rhyd, a'r haul sy bob amser yn twynnu ac heb y machlyd un amser, a'th belydr dy sydd yn goleuo pob peth: llewyrcha attolwg i ti yn fynghalon a'm hysbryd i a gwasgara dywyll-nos pechod, a chaddug niwl anwybodaeth allan o'm meddwl i, fel y gallwyf rodio yn weddus megis wrth liw dydd, ac ymwrthod a gweithredoedd y tywyllwch. Caniadha hyn Arglwydd, er mwyn dy aurhydeddus gyfodiad. Amen.

Wrth

Gweddiau.

Wrth tyned allan o'r ty.

Arglwydd Dduw, Gwna i mi wybod dy ffordd, a dysg i mi dy lwybrau. Cyfarwydda fy nghamrau wrth dy fendigedig air. Arwain fi yn dy gyfiawnder, a chyfarwydda dy ffordd o'm blaen. Cynnal fy ngherddediad yn dy lwybrau, fel na lithro fy nhraed. Bydded dy sanctaidd Angel gyda mi, rhag i'r cythraul gael gwall arnaf ir anfwir nes u im dyrgu. Caniadha hyn er mwyn dy un Mab Iesu ein Harglwydd. Amen.

Wrth

Wrth fyned i'th waith.

Y Bore, O Arglwydd, y'r a dyn allan i'w waith, ac i'w orchwyl hyd yr hwyr. Dyro i mi ddeal a synhwyr ysprydol, a nerth a gallu corphorol, i ddibennu fyngwaith yn llwyddiannus ac fel yr ydwyf yn ei gychwyn yn dy Enw di, caniadha allu ohonof ei orphen i'th ogoniant di, drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

Wrth ymadael a'th waith.

O Arglwydd Dduw Tad, ynot ti yn unig y mae ein holl nerth ni a'n grym: ofer y llafuriwn, ac anfuddiol dilles fydd ein gwaith, oni bydd cymmorth dy

dy ras di gyda ni. Am hynny y rhoddwn i ti fawr ddiolch am fendithio ein gwaith ni an llafur. Hebot ti ni allasom ni ddwyn ein gwaith i ben. Tydi yw ein cadernyd ni; a'th rad di a'th fendith a wnaeth i ni allu gorphen ein gwaith. I ti y bo'r gogoniant a'r anrhydedd yn oes oesoedd. Amen.

Wrth fyned i gysgu.

MOliant a diolch a fo i ti, Arglwydd Iesu Grist, prynwr y byd. Trwot ti y gwnaed pob peth ar a wnaethbwyd, a hebod ti ni all dim bod... au. Trwot ti y gwnaed y dydd a'r nos, a'r misoedd a'r blynydd... edd, a'r goleuni a'r tywyllwch;

A-

[illegible] weddiaw.

[illegible] ty cynhelir, ac y the[illegible] bwynt. Yr ydym ni ni [illegible] [illegible] yn attolwg i ti O Arglwydd, ein derbyn ni ynos hon dan gysgod dy drugaredd. Cadw ni rhag dychryn nos, a rhag maglau a dichellion y cythraul. Par i ni weled goleuni mewn tywyllwch, canys ti yw'r gwir oleuni. Cadw ni rhag y tywyllwch eithaf a dwg ni i mewn i'r goleuni tragwyddol, i'th foliannu di byth heb ddiwedd. Amen.

Wrth

Gwed[illegible]

With fyned i'r Eglwys.

Y Mawrder dy drugaredd, Arglwydd, y deuaf i'th dy, addolaf tu a'th deml sancteiddiol yn dy ofn di. Caniadha i ni fedru moliannu dy ogoneddus Enw, a diolch iti am bob peth, a dysgu dy sanctaidd air, ac ufuddhau iddo, a buchedd yn ei ol, fel y gallom yn y diwedd gael dy foliannu dy yn wastadol yn y nef, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen

TERFYN.